ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

ICT Year 1

Uned 1C: Y wybodaeth o'n cwmpas

Ynglŷn â'r uned:
Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu bod gwybodaeth yn bodoli mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys testun, lluniau llonydd a symudol, siartiau a seiniau a bod cyfryngau gwahanol yn cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol. Maen nhw'n dysgu bod modd defnyddio TGCh i gyfathrebu a thrin gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Dylai plant fedru cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth iddynt chwilio am a chyflwyno gwybodaeth.

Ble mae'r uned yn ffitio:
Mae hon yn uned gyflwyno am wybodaeth a sut mae'n cael ei chyfathrebu. Mae'n adeiladu ar brofiad o ddefnyddio meddalwedd fel rhaglen baentio a phrosesydd geiriau. Mae'n darparu sylfaen i Unedau 1E 'Cynrychioli Gwybodaeth ar ffurf Graffeg: Pictogramau, 2C 'Dod o hyd i wybodaeth', 2E 'Cwestiynau ac Atebion', yn ogystal ag Unedau 2A 'Ysgrifennu storïau: cyfathrebu gwybodaeth ar ddefnyddio testun, 3A 'Cyfuno testun a graffeg' a 4A 'Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol'

Geirfa:
botwm/eicon | Gwybodaeth | Testun | arddulliau ffont/testun | graffeg/lluniau | Sain | amlgyfrwng

Adnoddau:
tapiau sain | lluniau amrywiol | rhaglen amlgyfrwng, *ee llyfr siarad, gêm antur* | samplau o destun o ffynonellau gwahanol ac at ddibenion gwahanol | lluniau o arwyddion a symbolau yn ein bywyd pob dydd | recordydd tâp

DISGWYLIADAU

Erbyn diwedd yr uned hon,
Bydd mwyafrif y plant yn gallu: gwybod bod gwybodaeth yn bodoli ar ffurfiau amrywiol ac yn gallu ei chasglu o amrywiaeth o ffynonellau

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: wedi cael cyfleoedd i gasglu gwybodaeth ar ffurfiau amrywiol ac o ffynonellau amrywiol.

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: sylweddoli bod rhaglenni cyfrifiadurol yn defnyddio seiniau, testun a lluniau i gyfathrebu gwybodaeth; yn dechrau adnabod rhai o'r confensiynau a ddefnyddir i gyfathrebu gwybodaeth

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Gosod yr olygfa			
• **syniad allweddol:** bod modd cyflwyno gwybodaeth mewn ffurfiau amrywiol.	• Trafodwch gyda'r plant fod deunyddiau yn 'dweud' pethau wrthym *ee mae lluniau yn dangos i ni sut mae pethau'n edrych, mae mapiau'n dangos ble mae pethau, mae labeli'n disgrifio beth yw pethau, mae seiniau fel clychau a chwibanau'n gallu ein hysbysu bod rhywbeth ar fin digwydd.*	• sylweddoli bod deunyddiau gwahanol yn gallu darparu gwybodaeth	• Gallai fod yn bosib estyn y drafodaeth i gynnwys categorïau o wybodaeth, *ee rhybuddion (fel arwyddion ffyrdd a goleuadau traffig), cyfarwyddiadau neu adloniant*
• **syniad allweddol:** bod gwybodaeth yn dod o ffynonellau amrywiol	• Trafodwch gyda'r plant ble byddai modd i ni ddarganfod pethau a chyflwyno'r syniad o amrywiaeth o ffynonellau, *ee gofyn cwestiynau, llyfrau, teledu, meddalwedd, y rhyngrwyd, pobl.*	• gwybod bod modd iddynt ddod o hyd i wybodaeth o ffynonellau amrywiol	• Dylid annog plant i feddwl am fathau gwahanol o lyfrau, *ee geiriaduron, wyddoniaduron.*
Tasgau byr wedi'u ffocysu			
• **syniad allweddol:** bod seiniau'n cyfleu gwybodaeth • **syniad allwewddol:** bod meicroffonau, dyfeisiau recordio, cyfrifiaduron a recordyddion tâp yn gallu cael eu defnyddio i recordio a storio seiniau.	• Paratowch recordiad tâp o seiniau sy'n cyfleu gwybodaeth, *ee cloch yn nodi diwedd amser chwarae, arwyddgan deledu yn nodi bod rhaglen ar fin dechrau, baban yn crïo i ddangos bod chwant bwyd arno, car heddlu neu gorn ambiwlans.* Gofynnwch i'r plant gau eu llygaid, gwrando ar y seiniau a disgrifio beth mae'r seiniau'n ei ddweud wrthynt • Dylai plant dapio cyfweliad gydag oedolyn, efallai i gasglu gwybodaeth i gefnogi gwaith pwnc. Cyn y cyfweliadau, dylent benderfynu ar y cwestiynau maen nhw eisiau eu gofyn. Bydd y pynciau'n amrywio *ee cludiant, tai, sut roedd bywyd pan oedden nhw'n blant.* Gellir canu'r recordiadau'n ôl i'r dosbarth cyfan. Dylai'r plant ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd wedyn ar gyfer gweithgareddau eraill.	• cydnabod bod *seiniau*'n cyfleu gwybodaeth • defnyddio recordydd casét i gasglu a storio gwybodaeth ar ffurf sain • defnyddio meicroffôn cyfrifiadur i recordio seiniau.	• Mae recordwyr casét syml ar gael sy'n gallu recordio drwy bwyso un botwm. Byddai modd i'r mwyafrif o blant recordio gwybodaeth gan ddefnyddio offer o'r fath. Dylid annog plant i recordio pob cwestiwn yn ogystal â'r ateb. O bosib, byddai'n briodol rhoi plentyn llai hyderus mewn pâr gyda phlentyn sydd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio meicroffôn.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
			• Ar ôl gwran Mae recordwyr casét syml ar gael sy'n gallu recordio drwy bwyso un botwm. Byddai modd i'r mwyafrif o blant recordio gwybodaeth gan ddefnyddio offer o'r fath. Dylid annog plant i recordio pob cwestiwn yn ogystal â'r ateb. O bosib, byddai'n briodol rhoi plentyn llai hyderus mewn pâr gyda phlentyn sydd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio meicroffôn. • Ar ôl gwrando a thrafod beth maen nhw wedi clywed, gallai plant nodi a chydweddu'r lluniau â'r seiniau.do a thrafod beth maen nhw wedi clywed, gallai plant nodi a chydweddu'r lluniau â'r seiniau.

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu (Parhad)			
• **syniad allweddol:** bod lluniau'n darparu gwybodaeth	• Dangoswch ddetholiad o luniau o faint poster gan gynnwys ffotograffau, lluniadau cynrychiadol, lluniau haniaethol, arwyddion a mapiau i'r dosbarth. Gofynnwch i'r plant ddisgrifio beth mae pob llun yn ei'ddweud' wrthynt, *ee mae'n dangos rhai o'r mathau o anifeiliaid sy'n byw yn y môr, mae'n dangos pa mor fawr yw dinosor o'i gymharu â thŷ.*	• esbonio pa wybodaeth mae llun yn ei darparu	• Ceisiwch gynnwys lluniau sy'n cynnwys testun ac anogwch y plant i wahaniaethu rhwng y wybodaeth y mae'r testun a'r llun yn ei darparu. • Os oes camera digidol ar gael, dylai fod ar gael i'r plant ei ddefnyddio i recordio gwybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc, *ee mathau gwahanol o dai, cludiant, ein hysgol, gweithgareddau dysgu drwy brofiad.*
• **syniad allweddol:** bod gwybodaeth o'n cwmpas ym mhobman mewn ffurfiau amrywiol	♦ Gofynnwch i'r plant edrych o gwmpas yr ystafell ddosbarth a nodi unrhyw beth sy'n darparu gwybodaeth iddynt. Trafodwch sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyfathrebu. Estynnwch y chwiliad y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ond o fewn tiroedd yr ysgol o hyd. Gofynnwch i'r plant gasglu samplau a'u dosbarthu yn destun, lluniau a sain. Mae'n bosib y bydd ganddynt samplau sy'n cynnwys lluniau *a* thestun – bydd hyn yn darparu sylfaen ar gyfer grŵp amlgyfrwng dan y gweithgaredd nesaf. • Gofynnwch i'r plant ystyried sut mae'r wybodaeth yn cael ei chyfathrebu yn y byd ehangach, *ee arwyddion ffyrdd – Cymraeg a Saesneg, goleuadau traffig, arwyddion siopau, cyfarwyddiadau ffordd, labeli cyfarwyddiadau fel 'GWTHIWCH' a 'TYNNWCH'.* Cofnodwch y canfyddiadau hyn, efallai drwy dynnu lluniau. Dosbarthwch y rhain yn destun, lluniau, sain ac amlgyfrwng.	• adnabod deunyddiau sy'n darparu gwybodaeth	• Gellir annog plant mwy galluog i gofnodi'r math o wybodaeth maent yn ei darparu. • Ewch am dro a thynnu ffotograffau digidol a recordio seiniau o'r ardal o gwmpas yr ysgol. Cysyltwch hyn â Daearyddiaeth

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu (Parhad)			
	• Ar bapur dylai'r plant gofnodi gwrthrychau amrywiol sy'n cyfathrebu gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol, *ee plygu darn o bapur yn chwe rhan a gofyn i'r plant dynnu luniadauneu gasglu lluniau o bethau sy'n cyfathrebu gwybodaeth gan ddefnyddio testun, sain, lluniau llonydd, eiconau, testun a lluniau gyda'i gilydd, neu symbolau, a allai gynnwys lluniau o lyfrau, cylchgronau neu bapurau newydd, clociau larwm, amserwyr cegin, ffyrnau microdon, eicon yr argraffydd ar y cyfrifiadur, prosesyddion geiriau, rhaglenni paentio, comics, arwyddion. Dylid annog disgyblion i nodi unrhyw arwyddion dwyieithog a welir yn yr amgylchedd.*		
• **syniad allweddol:** bod cyfrifiaduron yn defnyddio eiconau i ddarparu gwybodaeth a chyfarwyddiadau	• Cyflwynwch raglen amlgyfrwng fel llyfr siarad neu gêm antur i'r plant. Gofynnwch iddynt edrych ar yr eiconau ar y sgrîn ac awgrymu pa wybodaeth neu gyfarwyddyd y gallent ei ddarparu. Anogwch y plant i wirio i weld a oeddent yn iawn neu beidio • Dylai plant archwilio'r rhaglen i weld faint o ffyrdd gwahanol sydd gan y cyfrifiadur o gyfathrebu gwybodaeth.	• gwybod pa wybodaeth a gyflëir gan rai o'r eiconau a ddefnyddir mewn meddalwedd cyfrifiadurol	• Trafodwch gyda'r plant yr hyn a ddarperir gan y llyfr electronig o'i gymharu â'r fersiwn bapur draddodiadol. • (Gallai plant greu cardiau arddangos ar gyfer yr ardal ar gyfrifiaduron i ddangos ystyr yr eiconau.)

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasgau byr wedi'u ffocysu (Parhad)			
• **syniad allweddol:** bod 'rheolau' (neu gonfensiynau) penodol yn cael eu cymhwyso wrth gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth.	• Casglwch samplau o destun ar bapur sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gwahanol. Trafodwch pam y defnyddir arddulliau a meintiau gwahanol o destun a ffont, *ee mae'n rhaid i label yn y dosbarth fod yn fawr fel bod modd i bawb ei weld -y dyddiad ar y bwrdd er enghraifft neu'r rhestr o bwy sy'n gyfrifol am dasgau penodol*. Mae'n bosib y bydd plant yn sylwi bod papur newydd yn defnyddio ysgrifen o feintiau gwahanol ar dudalen. Dylid eu hannog i fynegi eu syniadau ynghylch pam mae hyn yn digwydd. Mae'n bosib y bydd rhai plant yn nodi bod lliw yn cael ei ddefnyddio i gyfleu ystyr, *ee coch ar gyfer aros neu berygl a gwyrdd ar gyfer mynd ymlaen*. Os oes labeli o'r un maint ar y droriau yn y dosbarth gellir gofyn i blant pam maen nhw wedi cael eu paratoi fel hyn • Cyflwynwch set o ffeiliau testun wedi'u paratoi i'r plant. Dylid trefnu pob un at ddiben penodol, *ee maint ffont addas gyda bocs neu ffrâm o'i gwmpas i gynhyrchu labeli ar gyfer lluniau i'w harddangos, arwydd rhybuddio gyda thestun mawr coch mewn ffrâm, cynllun sy'n addas ar gyfer poster gyda thestun sy'n ddigon mawr i'w ddarllen rai troedfeddi i ffwrdd*. Gallai'r plant awgrymu ar gyfer beth y byddent yn defnyddio pob un. Gallai rhai ddangos ac yn cael cyfle i eraillerail arbrofi yn ddiweddarach	• wybod bod angen ysgrifen mawr os oes angen i bawb weld y wybodaeth a bod rhai lliwiau'n cael eu defnyddio at ddibenion penodol, ee defnyddir coch i'n rhybuddio am berygl • gwybod bod cyfrifiadur yn gallu addasu golwg testun at ddiben penodol	• Gallai plant edrych ar ddetholiad o lyfrau o lyfrgell yr ysgol. Dylai'r llyfrau hyn ymestyn dros amrediad oedran mor eang â phosib. Mae'n bosib y byddant yn sylwi bod llyfrau i blant bach yn cynnwys mwy o luniau na thestun ond bod llai a llai o luniau wrth i'r gynulleidfa fynd yn hŷn. Dylid annog plant i awgrymu bod y lluniau yno i ddarparu gwybodaeth ychwanegol a bod modd iddynt gyfrannu'n sylweddol at stori neu ddeunydd ffeithiol.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion dysgu *Dylai disgyblion ddysgu*	**Gweithgareddau posibl**	**Canlyniadau dysgu** *Gall disgyblion*	**Pwyntiau i'w nodi**
Tasg Asesu			
• dangos bod modd cyflwyno gwybodaeth mewn ffurfiau amrywiol a'i chasglu o ffynonellau amrywiol	• Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i gasglu gwybodaeth am bwnc y cytunwyd arno, e.e. yr ardal o gwmpas ein hysgol. Anogwch nhw i feddwl am beth maen nhw eisiau ei ddarganfod *am* y pwnc (ond dylent fod yn barod i ymchwilio i bethau eraill). • Gofynnwch i'r plant feddwl am ble a phryd y byddant yn dod o hyd i'r wybodaeth a *sut* byddant yn ei chasglu a'i chyflwyno. • Anogwch y plant i gasglu gwybodaeth mewn ffurfiau amrywiol, *ee lluniau cynrychiadol, cyfweliadau, llyfrau, ffotograffau*. Gofynnwch iddynt wneud arddangosiad syml o'r deunyddiau y maent yn eu casglu	• Select an appropriate style of presentation for a particular task.	

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website